Aneira-Blwyddyn 7-Ysgol Bro hyddgen- Adran A

# Dan Olau'r Lleuad

Gorweddai Lleuwen yn ei gwely gan fethu cysgu. Roedd rhywbeth wedi ei deffro a doedd hi ddim yn gwybod beth. Tybiodd Lleuwen ei bod wedi diffodd y golau, do mi roedd hi! Mi roedd canol nos yn teimlo fel canol dydd. Beth oedd yn goleuo ei hystafell? Aha, y lleuad wrth gwrs! Anghofiodd Lleuwen yn llwyr ei bod yn lleuad llawn y noson honno. Edrychai'r lleuad fel lamp stryd anferth yn goleuo Cwmarianrhod gyfan. Roedd y lleuad yn gwenu'n glên ar y gymuned. Ond nid Lleuwen yn unig a gafodd ei deffro gan y belen wen y noson honno; roedd ei chi, Bleddyn, wedi dod i mewn i'w hystafell ac fe ddaeth a gwthio ei drwyn gwlyb i mewn i gynhesrwydd ei gwely gan fynnu ei sylw fel arfer!
Teimlodd Lleuwen reidrwydd i fynd at y ffenest i weld beth oedd i weld yng ngolau'r lleuad a cafodd rhyw deimlad od wrth weld golygfa mor gyfarwydd iddi yn edrych braidd yn anghyfarwydd yn y golau arbennig. Edrychodd draw tuag at dŷ ei ffrind, Llew, a bu bron iddi neidio allan o'i chroen gan ei fod o hefyd yn edrych allan o ffenest ei ystafell wely tuag at Lleuwen!

Yna, aeth hi'n dywyll gan fod y lleuad wedi diflanu y tu ôl i gwmwl ac fe feddyliodd Lleuwen a oedd hi wedi breuddwydio gweld Llew yn edrych arni, ond yn sydyn fe oleuwyd pob man unwaith eto, hyd yn oed yn fwy llachar y tro hwn gan wneud i'r llwydrew ddisgleirio. Tynnwyd sylw Lleuwen at lwybr a oedd yn disgleirio'n arian nag oedd hi wedi sylwi arno o'r blaen.

Edychodd Lleuwen yn ôl at ffenest Llew, ac roedd yn dal yno.

Gwnaeth Llew arwydd ffôn ar Lleuwen ac mi ddiflanodd am funud.
Edrychodd Lleuwen ar ei ffôn ac fe ddaeth neges gan ei ffrind:
"Methu cysgu… beth am fynd allan?"
Atebodd Lleuwen:
"Ond, mae'n ganol nos… dwi ddim yn cael…"
"Pwy sy'n mynd i wybod?… tyrd!" meddai Llew.
"Hmm… iawn, gad imi wisgo rhywbeth cynnes!" meddai Lleuwen.

Gwisgodd Lleuwen siwmper wlân drwchus gan sleifio i lawr y grisiau mor ddistaw ag y galla'i rhag ofn iddi ddeffro ei rhieni a'i chwaer. Roedd ei chalon yn curo yn gyflym gan ei bod yn gyffrous iawn a braidd yn ddireidus yn gwneud hyn. Gwisgodd ei chôt a'i esgidiau glaw a sleifiodd Bleddyn y ci ffyddlon ar ei hôl wrth iddi fynd allan trwy'r drws.

“O, Bleddyn, beth wyt ti’n wneud?” sibrydiodd Lleuwen arno gan esgus ei ddwrdio ond efo gwên gariadus ar ei wyneb.. roedd hi’n falch o gael ei gwmni go iawn!

Cwrddodd a Llew yn yr ardd gefn ac edrychodd y ddau i gyfeiriad y llwybr dirgel ac yna ar ei gilydd heb ddweud gair. Roedd y ddau wedi ei weld ac roeddent fel petaent yn cael eu tynnu i’w ddilyn.

Roedd hi’n noson oer iawn ac roedd cerdded dros y glaswellt rhewllyd yn teimlo fel cerdded ar greision.

Cerddodd y ddau i fyny at y goedwig cyn stopio wrth gyrraedd y coed. Roeddent yn gyndyn o fynd i mewn i’r goedwig, ond fe gyfarthodd Bleddyn a rhedeg i mewn o’u blaenau gan ysgwyd ei gynffon a oedd yn arwydd nad oedd y ci call yn meddwl fod peryg yn nhywyllwch y goedwig meddyliodd Lleuwen. Roedd y coed yn golygu ei bod yn dywyllach, ond y peth od oedd fod y llwybr yn dal yn ddisglair, fel petai rhywun wedi ei oleuo yn arbennig ar eu cyfer. Ymhen dipyn, daeth y ffrindiau at le agored yng nghanol y coed. Roedd y llwybr yn arwain i ganol y llannerch, ac fe aeth y ddau ymlaen i weld coeden fawr unig efo drws bach cudd yn y boncyff. Roedd Lleuwen a Llew wedi syfrdannu wrth weld peth mor od mewn coeden. Nid dyma’r tro cyntaf i Lleuwen feddwl ei bod yn breuddwydio y noson honno.

Aeth Llew at y drws cudd yn hyderus, a doedd Lleuwen ddim yn gallu coelio beth wnaeth o nesaf, sef rhoi cnoc ar y drws!

“Llew, be goblyn ti’n ei wneud?!” gofynnodd Lleuwen mewn syndod.

“Wel, waeth i ni weld os oes rhywun adref” meddai Llew a gwên ddireidus ar ei wyneb.

Er mawr syndod i’r ddau, agorodd y drws yn araf, ac fe gyfarthodd Bleddyn yn gyfeillgar gan fynd i mewn i’r goeden a tuag at y golau cynnes. Yna, clywsant lais rhyfedd yn dweud:

“Bla Bli Bla Bli Blob… Croeso i chi eich tri… dewch i mewn i’r cynhesrwydd..” Edrychodd Lleuwen a Llew ar ei gilydd a sylweddoli erbyn hyn fod hyn wedi mynd y tu hwnt i antur diniwed. Roedd wyneb y ddau yn welw ac er fod Lleuwen yn teimlo fel rhedeg i ffwrdd, doedd hi ddim am adael Bleddyn ar ben ei hun, a doedd y llais rhyfedd ddim yn swnio’n flin o gwbl.

Aeth y ddau i mewn yn araf, roedd hi'n gynnes ym moncyff y goeden, gan fod tân yn llosgi mewn stôf yn y gornel.

"Bla Bli Bla Bli Blob, hoffech chi baned o Spladiboblibw?" meddai'r llais rhyfedd yn garedig.

Trodd y ddau eu pennau ac fe welson nhw y creadur rhyfeddaf a welson nhw erioed. Roedd y creadur yn fach, ac i ddweud y gwir, ychydig yn dew. Roedd ei wallt yn amryliw fel enfys, ac roedd yn gwenu'n gyfeillgar arnynt er fod ei ddannedd bob siâp. Roedd ei lygaid yn fawr, ac roedd ganddo dri ohonynt gan fod ganddo un ar ganol ei dalcen! Roedd ganddo ddau beth hir yn tyfu allan o'i ben, fel dau lolipop lliwgar a oedd yn chwifio o gwmpas wrth iddo symud. Meddyliodd Lleuwen fod y ddau lolipop siwr o fod yn niwsans iddo, a sut wir oedd o'n gallu gwisgo het?! Roedd o'n gwisgo rhyw fath o siwt arian lachar efo esgidiau uchel i fyny at ei bengliniau.

"Bla Bli, Bla Bli Blobli Blobli Bw… sori, dydy'r iaith Gymraeg yma ddim yn hawdd i mi… Blob ydw i o'r blaned Blabli Bw sydd yn andros o bell o fan hyn… Nawr te, Bla Bli, gymrwch chi baned o Spladiboblibw? Mae'r tegell newydd ferwi!"

"Ym, o, wel, dim ond os nad ydy o'n ormod o drafferth" meddai Lleuwen, gan ei bod wedi cael ei dysgu i ymddwyn yn gwrtais efo dieithriaid.

"Bla Bli Dw.. da iawn wir, cewch damaid o gacen Wipydidwdl efo fo" meddai Blob yn llawen.

Tra roedd yr estron yn paratoi'r baned yn sydyn, roedd Lleuwen a Llew yn edrych ar ei gilydd gan fethu credu eu bod mewn sefyllfa fel hyn.

Aeth Blob i esbonio sut y cyrhaeddod y Ddaear. Mae'n debyg ei fod wedi dod ar long ofod o'r blaned Blabli Bw rai misoedd yn ôl, ac fe laniodd y llong ofod yng nghanol y goedwig er mwyn i'r gyrrwr gael seibiant. Tra fod yr estroniaid yn aros, aeth Blob am dro, ac fe anghofiodd y lleill amdano gan ei adael ar ei ben ei hun. Roedd Blob wedi gallu gwneud cartef iddo'i hun yng nghanol y goeden gan fod offer pwrpasol yn ei fag a bwyd wedi ei sychu mewn pacedi. "Bla Bli Da Blab y Di Blw… mae'n rhaid imi ofyn ichi eich dau am help os gwelch yn dda.." meddai Blob. " Bla Bli.. mae'r llong ofod yn ôl yn y galaeth hwn, Y Llwybr Llaethog, heno gan fod y lleuad mor ddisglair.. rydw i angen eich ffonau symudol er mwyn imi geisio cysylltu a'r lleill i ddod i fy nôl.. Bli Bli Blw" Roedd Blob yn gofyn iddynt yn daer, a gwelodd Lleuwen a Llew ambell ddeigryn yn dod i'w ambell lygad gan fod hiraeth arno.

“Wrth gwrs y cewch chi” meddai Lleuwen, ond gwelodd hi fod Llew ychydig yn gyndyn gan ei fod wedi cael ffôn symudol newydd ar ei benblwydd yn ddi-weddar.

“Blodi Blwbi di Blw… paid a phoeni, dim ond eisiau eu menthyg ydw’i” meddai Blob a wnaeth i Lleuwen feddwl ei fod yn gallu darllen eu meddyliau.

“Bli Bli Bli, ydw, rydw’i yn gallu darllen eich meddyliau!” medai Blob yn chwareus.

Roedd Blob yn gwethio’n gyflym wrth fynd i grombyl y ddau ffôn a gwneud rhyw fath o declyn cymleth efo gwifrau yn dod ohonno. Fe glywodd y ddau Blob yn siarad efo ei ffrindiau yn ei iaith unigryw yn gyflym iawn. Mewn rhyw hanner awr, aeth Blob allan o’r goeden a dilynodd Lleuwen, Llew a Bleddyn. Daeth golau mawr o’r awyr a gwynt cryf cyn i’r llong ofod anferth lanio’n araf.

“Bla Bli Bla Bli Blw, diolch yn ofnadwy i chi gyfeillion am eich help, byddaf yn siwr o Bla Bli gofio am hyn” meddai Blob yn llawen.

Ffarweliodd y ffrindiau newydd ac fe aeth Blob i mewn i grombil y llong ofod cyn iddi godi’n sydyn a diflannu.

Y peth nesaf i Lleuwen sylweddoli oedd ei bod yn deffro yn ei gwely yn ei chartref gan feddwl ei bod wedi breuddwydio’r cyfan, nes iddi flasu’r gacen Wipydidwdl ar ei gwefusau!

Mae’n rhyfedd beth sy’n gallu digwydd dan olau’r lleuad.